

Cofnodion



Cyfarfod Cysylltu gyda Chynghorau Cymuned

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Hydref 2023

Amser: 6.00 pm

Yn Bresennol: Cath Davies (CC Maerun), Mandy George (Llan-wern), Nathan Tarr (Graig), Judy Clatworthy (Gwynllŵg), Julie Foster (Gwynllŵg) John Davies (Llangadwaladr Trefsgob), y Cynghorydd Yvonne Forsey (Gorllewin Tŷ-du), y Cynghorydd Bev Davies (Dwyrain Tŷ-du), Andrew Mitchell (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau), Leanne Rowlands, (Rheolwr Gwasanaethau Democraidd ac Etholiadol), Katherine Majer (Dirprwy Rheolwr Gwasanaethau Democraidd ac Etholiadol), Janice Dent (Rheolwr Polisi a Phartneriaethau), Saffron Bowtell (Swyddog Newid Hinsawdd), Emily Mayger (Swyddog Llywodraethu), Simon Richards (Swyddog Llywodraethu)

1 Ymddiheuriadau

2 Datganiadau Buddiannau

3 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22.06.23

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2023 yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Democraidd ac Etholiadol yn dymuno adrodd yn ôl ar rai materion a godwyd yn y cyfarfod blaenorol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democraidd ac Etholiadol mai'r nifer oedd yn ofynnol i'r cyfarfod fod yn gworwm oedd traean o gyfanswm yr aelodau; gall y nifer cworwm gynnwys y cadeirydd.

Nododd y Rheolwr Democraidd a Gwasanaethau Etholiadol nad oedd Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi'i gyhoeddi ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwilio iddo a chynnwys cwyn am dorri'r Cod Ymddygiad.

Holodd Cynghorydd Cymunedol a oedd hyfforddiant ar ddiogelwch personol wedi'i drefnu ac eglurodd y Rheolwr Democraidd a Gwasanaethau Etholiadol bod rhywfaint o oedi wedi bod ond bod hyn yn cael ei ddatblygu.

Dywedodd Cynghorydd Cymuned fod yr heddlu wedi bod yn bresennol yn eu cyfarfod diwethaf ac roedd hyn wedi'i groesawu.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democraidd ac Etholiadol fod yr Uwch-arolygydd, Jason White, wedi ymrwmo i fod yn bresennol ym mhob cyfarfod arall gan olygu y byddai cyfle i godi unrhyw faterion yn y cyfarfodydd hynny.

4 Drafft Ymgynghori Cynllun Gweithredu Lleol Casnewydd

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau yr eitem. Mae Casnewydd yn Un yn bartneriaeth o'r prif asiantaethau cyhoeddus yng Nghasnewydd gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Heddlu Gwent, Cyfoeth Naturiol Cymru

a hefyd sefydliadau lleol allweddol fel Cartrefi Dinas Casnewydd a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent. Mae Cynlluniau Gweithredu Lleol a ddatblygwyd gan y pum partneriaeth leol sy'n cefnogi BGC Gwent, gan gynnwys Casnewydd yn Un, yn rhoi eglurder ar y camau gweithredu lleol sydd eu hangen i gefnogi'r Amcanion Lles y cytunwyd arnynt gan BGC Gwent ar gyfer y Cynllun Lles rhanbarthol. Daeth y cynllun blaenorol i ben ym mis Ebrill. Nododd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau y byddai'r cynllun newydd ar waith am 5 mlynedd ac ychwanegodd fod pob awdurdod lleol mewn cyfnod o ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol dan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol Gwent yn seiliedig ar flaenoriaethau'r strategaeth drosfwaol.

Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau wrth gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned am yr ymgynghoriad cyhoeddus a oedd bellach ar agor ar fersiwn ddrafft Cynllun Gweithredu Lleol Casnewydd.

Y prif themâu a nodwyd o adborth yn ystod gwaith ymgysylltu cychwynnol oedd yr Economi a Diwylliant, Cryfhau'r Gymuned a Chadernid Cymunedol, Cydlyniant a Diogelwch a'r Amgylchedd.

Nododd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau fod ymgynghoriad wedi digwydd yn bennaf trwy ymgysylltu ar-lein, ond hefyd drwy allgymorth mewn mannau cyhoeddus ac mewn digwyddiadau lleol. Gofynnodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau i aelodau'r Cyngor Cymuned am eu hadborth, ac ychwanegodd y byddent hefyd yn gwerthfawrogi pe bai'r cynrychiolwyr yn rhannu'r arolygon gyda'u trigolion lleol i'w hannog i gymryd rhan.

Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau wrth gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned eu bod yn gallu darparu cefnogaeth i'r rheini nad oeddent yn gallu eu cwblhau ar-lein.

Gofynnodd cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned a ellid rhannu hyn ar y cyfryngau cymdeithasol fel y gallent ei hyrwyddo yn eu grwpiau lleol.

- Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau y gallent ac y byddent yn anfon dolen y gellid ei rhannu.

Nododd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau ei bod yn hapus i gymryd unrhyw adborth neu gwestiynau o'r cyfarfod ond tynnodd sylw at bwysigrwydd annog trigolion lleol i ymgysylltu fel rhan o'r broses.

Holodd Cynghorydd Cymunedol faint o wybodaeth a oedd angen ei darparu i'w hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad.

- Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau y bu ymdrech i ddod o hyd i gydbwysedd yn y swm o wybodaeth a ddarparwyd i annog cyfranogiad gwybodus ac ystyrlon ac ychwanegodd os oedd gan y Cynghorau Cymuned unrhyw gwestiynau yn ddiweddarach, bod croeso iddynt gysylltu â hi.

Holodd Cynghorydd Cymuned pryd bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben.

- Nododd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau mai'r dyddiad cau oedd y 14 Hydref ond ychwanegodd, gan nad oedd yn ofynnol i'r canlyniadau gael eu bwydo'n ôl tan fis Rhagfyr byddai rhywfaint o le i'w ymestyn.
- Dywedodd Cynghorydd Cymunedol y byddai estyniad yn syniad da ac awgrymodd ddiwedd mis Hydref.

Cytunodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau i'r estyniad.

5 Cynllun Lles Gwent

Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (BGC) wedi'i sefydlu yn 2021 gan y credwyd bod hyn yn fwy effeithiol na'r BGCau gwasgareddig yn unig a oedd wedi bod ar waith cyn hyn. Nododd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau mai rhan o swyddogaethau BGC Gwent oedd bod ganddynt Gynllun Asesu Lles ar waith. Nododd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau fod yr Asesiad Lles wedi'i gyhoeddi yn 2022 a bod gan Gasnewydd 6 maes asesu. Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau y bu cyfnod ymgynghori a bod y canlyniadau wedi'u cyfuno i greu drafft ar gyfer y cynllun terfynol a fyddai'n cael ei gyhoeddi yn nodi gwelliannau arfaethedig ar y meysydd allweddol.

Nododd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau fod y cynllun drafft wedi'i gyhoeddi a bod angen gwneud rhai gwelliannau ond unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau y byddai'n cael ei ddiweddarau ar y wefan gyhoeddus ac y byddai gwybodaeth yn cael ei dosbarthu mewn llyfrgelloedd a mannau cymunedol. Nododd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau fod dau amcan cydgysylltiol wedi'u nodi o'r Aseiad Lles a rhoddodd disgrifiad byr o'r ddau.

- 1. 'Rydym am i Went fod yn decach, yn fwy cyfartal, ac yn fwy cynhwysol i bawb.
- 2. 'Rydym am i Went fod yn barod o ran yr hinsawdd, gan roi gwerth ar ein hamgylchedd a'i ddiogelu er ein budd ni nawr a chenedlaethau'r dyfodol.'

Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau y bu ffocws ar egwyddorion Marmot yn yr aseiad, sy'n ddangosyddion iechyd a disgwyliad oes. Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau bod 179 o argymhellion i'w gweithio arnynt ond amlygodd fod hwn yn gynllun hirdymor ac na fyddai manteision rhai yn amlwg ar unwaith. Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau y byddai cyfarfod i edrych ar sut i fynd i'r afael â'r materion hyn a fydd yn rhan o'r cynllun gweithredu. Gorffennodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau drwy annog cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned i ddarllen yr adroddiadau ac ystyried ffordd y gellir mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn drwy gydweithio.

Diolchodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol i'r Rheolwr Polisi a Phartneriaethau a nododd yr uchelgais.

Holodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau sut y dewiswyd y sefydliadau partner ym BGC Gwent.

- Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau fod gan y BGC ddeddfwriaeth gyfatebol a bod rhestr o'r rhai sy'n cael eu cyfethol ar gyfer gwaith penodol. Nododd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau fod rhai sefydliadau yn gweithredu fel cyfrwng ar gyfer sector mwy.

Holodd Cynghorydd Cymuned a oedd unrhyw wybodaeth bellach am egwyddorion Marmot.

- Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau fod yr Athro Marmot wedi cyhoeddi adroddiad am y tro cyntaf yn 2010 ac yna wedi ailedrych ar hyn ar ôl Pandemig COVID-19 i weld a fu unrhyw welliannau. Ni fu unrhyw newidiadau, yr oedd yr Athro Marmot yn hystyried eu bod wedi dynodi nad oedd y systemau presennol yn gweithio er gwaethaf ymdrechion gorau llawer. Mae'r ymchwil yn cael ei hystyried yn ddarlleniad heriol ond mae'n anelu at gymell cydweithredu ac ymagweddau gwell.

Gorffennodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol drwy ddiolch i'r Rheolwr Polisi a Phartneriaethau a thynnu sylw at y camau gweithredu yn y dyfodol.

- Disgwyliwyd y byddai'r Rheolwr Polisi a Phartneriaethau yn rhannu'r dolenni priodol â'r Cynghorwyr Cymuned i hyrwyddo'r ymgynghoriadau yn eu cymunedau.
- Dywedodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau y byddai'n ymestyn dyddiad cau'r ymgynghoriad hyd ddiwedd mis Hydref.

6 Newid Hinsawdd - Cefnogaeth i Gyngorau Cymuned

Cyflwynodd y Swyddog Newid Hinsawdd nifer o gyfleoedd ar gyfer cymunedau. Dywedodd y Swyddog Newid Hinsawdd fod dau rwydwaith yn cael eu hadfer. Dywedodd y Swyddog Newid Hinsawdd wrth y pwyllgor mai'r rhwydwaith cyntaf oedd Rhwydwaith Amgylchedd Casnewydd sydd ag egwyddorion craidd mannau gwyrdd pwrpasol hygyrch i drigolion Casnewydd. Dywedodd y Swyddog Newid Hinsawdd fod gan y rhwydwaith blaenorol ystod eang o aelodau a phan cynhaliwyd arolwg roedd ymdeimlad mawr bod pobl yn dal i fod yn awyddus i gymryd rhan. Dywedodd y Swyddog Newid Hinsawdd eu bod yn dymuno hyrwyddo'r rhwydwaith i ragor o bobl a nododd y byddent yn werthfawrogol iawn pe byddai cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned yn annog cyfranogiad yn eu wardiau. Nododd y Swyddog Newid Hinsawdd mai'r bwriad o sefydlu'r rhwydweithiau oedd creu gofod a oedd yn galluogi cydweithio ac annog cyfranogiad mewn prosiectau.

Dyweddod y Swyddog Newid Hinsawdd eu bod yn anelu at gefnogi cyfarfodydd chwarterol gyda digwyddiad lansio wyneb yn wyneb a fydd yn cael ei hysbysebu pan fydd wedi'i gadarnhau.

Dyweddod y Swyddog Newid Hinsawdd wrth gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned fod yr ail rwydwaith yn newydd ac yn dod â Hyrwyddwyr Hinsawdd Casnewydd ynghyd. Eglurodd y Swyddog Newid Hinsawdd fod gan y rhwydwaith hwn nod tebyg i Rwydwaith Amgylchedd Casnewydd ond bod ganddo gylch gwaith ehangach, gan ganolbwyntio ar bob grŵp sydd â diddordeb mewn cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd. Nododd y Swyddog Newid Hinsawdd y byddai'r rhwydwaith hefyd yn ofod i gysylltu a rhwydweithio wrth ddarparu dolen i'r Cyngor i drafod pryderon.

Dyweddod y Swyddog Newid Hinsawdd nad oedd angen ymrwymiad i fod yn bresennol yn naill rwydwaith na'r llall ond nododd eu bod yn dymuno cyfranogiad cynifer o bobl â phosib. Nododd y Swyddog Newid Hinsawdd y byddai'r rhwydwaith hwn yn cynnal cyfarfodydd chwarterol a digwyddiad lansio hefyd.

Amlygodd y Swyddog Newid Hinsawdd rai cyfleoedd y gallai trigolion fanteisio arnynt yn dibynnu ar eu cymhwysedd, gan gynnwys cynlluniau uwchraddio effeithlonrwydd ynni cartref am ddim ECO4 Flex, Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr, Datgarboneiddio Cymunedol, a gwefrwyr cerbydau trydan pellach.

Holodd Cynghorydd Cymunedol a oedd y grantiau effeithlonrwydd ynni ar gael ar gyfer y rheini ar fudd-daliadau yn unig. Nododd y Cynghorydd fod y tai mewn band Treth Gyngor uchel ar gyfer llawer o gymunedau gwledig a holodd beth ellid ei wneud i gefnogi'r bobl hynny a allai fod yn ei chael hi'n anodd yn ariannol hefyd.

- Dywedodd y Swyddog Newid Hinsawdd fod gan bob cynllun ei feini prawf cymhwysedd ei hun a nododd fod un yn seiliedig ar fandiau Treth Gyngor a bod un arall yn seiliedig ar sgôr effeithlonrwydd ynni'r eiddo.
- Dywedodd y Swyddog Newid Hinsawdd fod gan gynlluniau uwchraddio effeithlonrwydd ynni ECO4 Flex faen prawf gwahanol nad oedd yn ymwneud â'r Dreth Gyngor.

Holodd y Rheolwr Gwasanaethau Democraidd ac Etholiadol a oedd y Swyddog Newid Hinsawdd am i'r Cynghorau Cymuned gyflwyno cynrychiolwyr ar gyfer y rhwydweithiau hyn.

- Dywedodd y Swyddog Newid Hinsawdd y bydden nhw'n hapus i'r Cynghorau Cymuned a thrigolion gymryd rhan, neu i bwy bynnag oedd am gysylltu.

Holodd cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned a fyddai unrhyw ymgynghori â Chynghorwyr Cymuned ynglŷn â'r manau gwyrdd.

- Nododd y Swyddog Newid Hinsawdd y gallai fynd i gymunedau i wneud cyflwyniad ond nododd fod y rhwydweithiau yn bennaf ar gyfer ymgysylltu pawb.
- Holodd cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned a fyddai eu barn yn cael ei hystyried gan fod gwybodaeth leol heb gael ei defnyddio gan Hyrwyddwyr Hinsawdd yn y gorffennol.
- Dywedodd y Swyddog Newid Hinsawdd wrth gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned mai dyma oedd nod y rhwydweithiau a bod yr wybodaeth a'r syniadau i ddod o'r cymunedau eu hunain a thynnodd sylw at bwysigrwydd eu sylwadau.

Eglurodd y Swyddog Newid Hinsawdd y byddent yn cynnig arolygon ar gyfer mewnbwn pobl i wella allyriadau carbon ac ychwanegodd y gallai'r Cyngor wedyn ariannu peth o'r gwaith hynny.

Dyweddod y Swyddog Newid Hinsawdd wrth y pwyllgor eu bod yn ehangu'r rhwydwaith gwefru cerbydau trydan a bod cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio i osod 9 gwefrydd ychwanegol gyda chynllun ar gyfer gosod 6 arall. Nododd y Swyddog Newid Hinsawdd fod swyddogion a fyddai'n gallu mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau, pryderon neu adborth sy'n gysylltiedig â cherbydau trydan pe byddent yn dymuno cysylltu â nhw.

Gofynnodd cynrychiolydd y Cyngor Cymuned a ellid cynnal yr Arolygon Adeiladu ar adeilad a oedd yn eiddo i Gyngor Dinas Casnewydd.

- Nododd y Swyddog Newid Hinsawdd y byddai'n rhaid ystyried hyn gan fod gwelliannau effeithlonrwydd ynni wedi'u cynllunio ar lawer o adeiladau sy'n eiddo i Gyngor Dinas Casnewydd.
- Holodd cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned a fyddai hyn yn cynnwys Neuadd Bentref.
- Dywedodd y Swyddog Newid Hinsawdd y byddai, a thynnodd sylw at y manylion cyswllt cywir ar gyfer y mater hwnnw.

Gorffennodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol drwy ddiolch i'r Swyddog Newid Hinsawdd a thynnodd sylw at y camau gweithredu yn y dyfodol.

- Byddai'r Swyddog Llywodraethu yn rhannu'r sleidiau o'r cyfarfod â'r Cynghorau Cymuned.
- Byddai'r Cynghorau Cymuned yn cysylltu â'r Swyddog Newid Hinsawdd os oeddent am iddi fod yn bresennol mewn cyfarfod a chyflwyno rhagor o wybodaeth.
- Byddai rhestr o'r digwyddiadau sydd ar ddod yn cael ei rhannu unwaith y byddent yn cael eu cadarnhau.
- Byddai rhagor o wybodaeth am yr Arolygon Adeiladu yn cael eu rhannu â'r Cynghorau Cymuned.

7 Prawf Adnabod Pleidleiswyr

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol y cyflwyniad.

- Roedd Deddf Etholiadau 2022 wedi arwain at rai newidiadau allweddol gyda'r mwyaf o'r rheini yn cyflwyno Prawf Adnabod Pleidleiswyr yn ogystal â newidiadau mewn meysydd eraill fel pleidleiswyr yr UE a'r rhai tramor. Fodd bynnag, roedd ffocws y cyflwyniad ar y Prawf Adnabod Pleidleiswyr.
- Pwrpas Prawf Adnabod Pleidleiswyr oedd lleihau'r risg o dwyll pleidleiswyr yn ogystal â gwneud y broses etholiadol yn decach. Bydd y Prawf Adnabod Pleidleiswyr hefyd yn atal y drosedd etholiadol a elwir yn gambersonadu ond bu rhywfaint o feirniadaeth mewn perthynas â phrawf adnabod pleidleiswyr gan ei bod yn gwneud yn anoddach i rai bleidleisio.
- O 4 Mai 2023 roedd angen Prawf Adnabod Pleidleiswyr ar gyfer etholiadau seneddol yn ogystal ag etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau ledled y DU. Yn Lloegr bydd hefyd yn berthnasol i etholiadau lleol, ond nid i Gymru.
- Mae 23 math derbyniol o brawf adnabod yn cynnwys pasbortau a thrwyddedau gyrru, gall y rhain fod wedi dod i ben os oes tebygrwydd.
- Os nad oes gan berson brawf adnabod dilys, mae'n dal i allu gwneud cais am Brawf Adnabod Pleidleisiwr.
- Darperir Prawf Adnabod Pleidleiswyr yn rhad ac am ddim o'r Swyddfa Gofrestru Etholiadol a thrwy ymchwil disgwylir y bydd angen Prawf Adnabod Pleidleiswyr ar oddeutu 5% o bleidleiswyr.
- Yng Nghymru doedd Prawf Adnabod Pleidleiswyr ddim yn cael ei hysbysebu eto ond yn Lloegr mae wedi cael cyhoeddusrwydd oherwydd ei fod yn dod i rym ar gyfer etholiadau yn Lloegr yn gyntaf.
- Gellir gwneud y cais ar-lein neu ei gefnogi'n bersonol.
- Mae canolfan gyflawni ganolog yn bodoli ar hyn o bryd ond gallai hyn symud i raddfa fwy lleol yn y dyfodol.
- Mae'r Prawf Adnabod Pleidleiswyr ffisegol yn ddogfen A4 ac mae ganddo rai mesurau diogelwch fel y rheini a ddefnyddir o fewn arian cyfred cyfreithiol.
- Bydd y Comisiwn Etholiadol yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r angen am y Prawf Adnabod Pleidleiswyr cyn y cynhelir y bleidlais yn ogystal â darparu deunyddiau i gynghorau lleol er mwyn iddynt eu dosbarthu i drigolion.

- Rhaid i orsafoedd pleidleisio gael lle er mwyn i bobl ddangos eu Prawf Adnabod Pleidleiswyr yn breifat, bydd cyllid ar gyfer unrhyw ddeunyddiau sydd eu hangen ar gyfer y gofod hwn yn cael ei ddarparu.
 - Mae gan y Swyddog Llywyddu yn yr orsaf bleidleisio'r hawl i wrthod pleidleisiwr os nad oes ganddo brawf adnabod dilys, neu os yw'n teimlo nad yw'r prawf adnabod a ddarperir yn gyfreithlon. Mae'r penderfyniad i wrthod yn derfynol, ond gall y gwrthodiadau hyn fod yn destun adolygiad.
 - Bydd heriau fel codi ymwybyddiaeth er mwyn i'r trigolion gael digon o amser i gael eu Prawf Adnabod Pleidleiswyr.
 - Mae'r Comisiwn Etholiadol yn canolbwyntio ar sicrhau nad oes unrhyw gymunedau'n cael eu difreinio.
- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol mai'r etholiadau cyntaf y byddai hyn yn effeithio arnynt yng Nghasnewydd fyddai etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau sydd ar ddod ym mis Mai 2024 ac ychwanegodd bod ymdrech sylweddol wedi ei gwneud i sicrhau bod yr hyn roedd ei angen gan bleidleiswyr yn glir ar y wefan.

Amlygodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol rai enghreifftiau o'r ffurfiau adnabod a fyddai'n cael eu derbyn a nodwyd y byddai'r ddogfen adnabod rydych chi'n gwneud cais amdani ar y wefan am ddim. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol wrth y pwyllgor mai'r dyddiad cau ar gyfer y ffurfiau adnabod fyddai 5pm 6 diwrnod gwaith cyn y bleidlais ac ychwanegodd y byddai cyfathrebu clir yn cael ei ddsbarthu yn hysbysu pobl o'r dyddiad cau hwn. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol nad oedd angen gwneud hyn ar gyfer pob pleidlais ac y byddai'r ffurfiau adnabod eu hunain yn ddilys am 10 mlynedd.

Holodd Cyngorydd Cymuned beth oedd etholwr dienw.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol y byddai hwn yn berson na fyddai ei fanylion yn gallu bod ar gofrestr etholiadol, am resymau penodol, ond y byddai'n dal i allu pleidleisio.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol fod potensial ar gyfer dryswch ynghylch pa ffurfiau adnabod sy'n cael eu derbyn ac eglurodd fod y gwahaniaeth yn y math o ffurfiau adnabod wedi dod o lefel y dilysu sydd ei angen i'w gael yn wreiddiol ac ychwanegodd fod rhagor o wybodaeth ar y wefan. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol y byddai opsiwn i ddod i'r Ganolfan Ddinesig, yn ogystal â gwneud cais drwy'r porth, a byddai swyddog yn hwyluso'ch cais. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol ei bod yn bwysig bod y llun yn glir ond nododd nad oedd mor llym â gofynion llun pasbort.

Gofynnodd Cyngorydd Cymuned a fyddai pàs bws yn dderbyniol.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol y byddai'n dibynnu ar y math gan fod angen dilysu llymach ar rai pasys ac y byddai'r rhai hynny'n cael eu derbyn.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol fod gwybodaeth a ddysgwyd o Etholiadau Lloegr wedi bwydo i mewn i gynlluniau ar gyfer yr etholiad nesaf a thynnodd sylw at bwysigrwydd cyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy grwpiau cymunedol i sicrhau nad oes effaith anghymesur ar grwpiau ar y cyrion. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol y byddai rhywfaint o waith allgymorth yn cael ei wneud i hyrwyddo hyn a dywedodd wrth gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned y byddent yn hapus i ddod i siarad yn un o'u cyfarfodydd.

Holodd Cyngorydd Cymuned a allent gynorthwyo pobl gyda'u ceisiadau neu a ddylid eu cyfeirio at y Cyngor.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol y bydden nhw'n llunio'r cynllun gweithredu gorau ac yn bwydo hyn yn ôl.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol y byddai ffocws ar hygyrchedd yn y gorsafoedd pleidleisio ac ychwanegodd y byddai ardaloedd preifat ar gael i'r

rheini sy'n gofyn amdanynt ac yn dangos eu ffurfiau adnabod ond nododd mai'r unig bobl a ddylai weld ffurf adnabod fyddai'r Clerc Pleidleisio neu'r Swyddog Llywyddu. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol na ddylai'r Swyddog Pleidleisio roi slip pleidleisio i'r rheini nad yw eu ffurfiau adnabod yn cyfateb ac y byddai penderfyniad y Clerc Pleidleisio i'w gwrthod yn derfynol.

Dangosodd cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned bryder y gallai hyn atal pobl rhag cofrestru ar gyfer bod yn glercod pleidleisio.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol nad oedd y dystiolaeth o Loegr wedi dangos amharodrwydd ond bod yn rhaid i'r hyfforddiant fod yn glir er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Gofynnodd cynrychiolydd Cyngor Cymuned a fyddai hyn yn effeithio ar bleidleisiau drwy'r post.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol y byddai hyn yn effeithio ar bleidleisiau drwy'r post gan fod y dilysiad yn digwydd cyn yr etholiad a nododd y gallai hyn fod o ddefnydd i'r rheini yn y gwaith yn ystod y dydd.

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol y byddai heriau i sicrhau bod digon o gyfathrebu â phobl mewn da bryd, materion yn ymwneud ag anghydraddoldeb, baich ariannol cynyddol yn ogystal â heriau ychwanegol a wynebir gan staff canolfannau pleidleisio.

Nododd Cynghorydd Cymunedol y gallai fod o fudd i Glercod Pleidleisio gynghori pobl â ffurfiau adnabod annilys am yr hyn y gellid ei ddefnyddio fel eu bod yn cael cyfle i ddod yn ôl a phleidleisio gyda'r ffurf adnabod cywir.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol fod hyn wedi digwydd yn Lloegr ond ychwanegodd mai'r mater wedyn fyddai, a fyddai gan y person hwnnw ffurf adnabod dilys mewn man eraill gan y byddai'n rhy hwyr iddo wneud cais am un ar y cam hwnnw.

8 Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol y byddai'r heddlu'n bresennol yn y cyfarfod nesaf ac yn darparu gwybodaeth am lechyd a Diogelwch a nododd y byddai sesiwn ar Ddiogelwch Personol ond y byddai hon yn cael ei chynnal ar wahân.

Dywedodd y Rheolwr Democrataidd a Gwasanaethau Etholiadol y byddent yn ymdrin â'r Cynllun Datblygu Lleol yn ogystal â thrafodaeth ar Siarter y Cyngor Cymuned fel eitem ar yr agenda, a holodd a oedd cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned am i'r clercod fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Gwnaeth Cynghorydd Cymuned godi mater mewn perthynas â'r newidiadau i derfynau cyflymder ledled Cymru oherwydd bod rhywfaint o ddryswch yn y cymunedau.

- Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol ei fod yn newid mawr ond dywedodd wrth gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned ei fod yn benderfyniad gan Lywodraeth Cymru ac felly nid yw'n rhan o gylch gwaith Cyngor Dinas Casnewydd ond ychwanegodd os oedd yn ymwneud ag arwyddion i gysylltu neu lenwi'r ffurflen ar-lein gyda lleoliadau penodol ac y gellir asesu'r rhain.

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol y pennwyd dyddiad y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr ond gofynnodd a ellid cynnal y cyfarfod hwn yn gynt, ar 30 Tachwedd, i gyd-fynd â CDLI Cymru.